# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)07-10

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 2 Mawrth 2010
**Amser:** 08.30
**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod y 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

#### (i) BC(3)06-10 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 23 Chwefror 2010

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddant yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

#### Busnes yr wythnos hon - BC(3)07-10(p1)

3.1 Yn absenoldeb y Dirprwy Lywydd, nododd y Pwyllgor y byddai Dirprwy Lywydd dros dro yn cael ei ethol ar ddechrau pob Cyfarfod Llawn nes ei bod yn dychwelyd.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn busnes 2 a 3 Mawrth 2010.

3.4 Gohiriwyd yr eitem ganlynol tan 9 Mawrth:

Datganiad Deddfwriaethol gan y Gweinidog dros Dreftadaeth: Mesur Arfaethedig y Gymraeg

#### Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)07-10(p2)

3.5 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

#### Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)07-10(p3)

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

### 4. Deddfwriaeth

#### Dyddiadau Gwyliau Arfaethedig ar gyfer 2010-2011 ac ymateb y Pwyllgor i awgrymiadau'r Panel Adolygu Annibynnol - (BC(3)07-10(p4))

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dyddiadau gwyliau arfaethedig ar gyfer 2010-2011 a'i ymateb i awgrymiadau'r Panel Adolygu Annibynnol ar

amseroedd eistedd y Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor ar y dyddiadau gwyliau dros dro. Cytunodd y Llywodraeth i ddarparu rhagor o wybodaeth am ei rhaglen waith ddeddfwriaethol er mwyn galluogi'r Pwyllgor Busnes i gadarnhau'r dyddiadau gymaint o flaen llaw â phosibl.

**Y llwyth gwaith Deddfwriaethol - (BC(3)07-10(p5)**

4.2 Trafododd y Pwyllgor bapur yn amlinellu'r llwyth gwaith deddfwriaethol a'r pwysau gwaith a ragwelir rhwng nawr ac etholiadau'r Cynulliad.

4.3 Nododd y Pwyllgor benderfyniad y Llywydd i gael un balot arall ar gyfer Mesurau ar 17 Mawrth 2010, ac i beidio â chael balot pellach ar gyfer Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn ystod y trydydd Cynulliad.

**Llythyr gan Nerys Evans yn gwneud cais i gael Dadl Cyfnod 1 ar y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) - BC(3)07-10(p6)**

4.4 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais o gael Dadl Cyfnod 1 ddydd Mercher, 17 Mawrth 2010.

## 5. Pwyllgorau

**Cais gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i gynnal cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol yn y gogledd ar 22 Mawrth - BC(3)07-10(p7)**

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y cais.

## 6. Busnes arall

6.1 Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y gweithredu diwydiannol sydd i ddigwydd ar 8 a 9 Mawrth. Nododd y Rheolwyr Busnes fod trefniadau wrth gefn yn cael eu paratoi er mwyn sicrhau bod y gweithredu'n amharu cyn lleied â phosibl ar fusnes ffurfiol y Cynulliad.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**